5.181

PA LE MAE TARDDIAD 'AFON ANGEU?'

Rhai o'r Penillion diweddaf a Gyfansoddodd yr Awdwr.

Mae dyfroedd "Afon Angau"
Yn dechreu ymgrynhoi,
Pan gollir perthynasau
A ffrindiau oll yn ffoi;
A thonau o afiechyd
Sy'n gwneyd ei llif ddidrai,
A olchant dan sylfeini
Fy egwan dŷ o glai.

Dyferion dyfroedd Mara
A chwys a dagrau'r daith,
Yw'r afon ddofn ruadwy—
Arswydais lawer gwaith;
'Rol imi gael maddeuant,
Nid chwerw yw marw i mi,
Ond porth i orfoleddu,
Mae mhen uwchlaw ei li.

Ar ddanedd yr Iorddonen
Mi ganaf ddifyr gerdd,
Er myn'd â mhabell briddlyd
O dan yr ywen werdd;
Er dued yw'r agendor
Lle rhed y dyfroedd hyn,
Goleudy Pen Calfaria
Ddysgleiria ar y glyn.

O. GETHIN JONES.

x205 21 5423 2646.